**Cyfeirnod:** IR900

**Dyddiad cyhoeddi:** 6 Tachwedd 2023

# Cynlluniau LlC i adeiladu ysbyty newydd yn Sir Gaerfyrddin

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth ynglŷn â chynlluniau Llywodraeth Cymru i adeiladu ysbyty newydd yn Hendy-gwyn ar Daf neu Sanclêr, neu'r cyffiniau, dyddiedig 17 Hydref 2023.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu'r eitemau y gofynnwyd amdanynt gennych isod a nodi ein hymatebion cyfatebol.

**Gwybodaeth mewn perthynas â chynlluniau Llywodraeth Cymru i adeiladu ysbyty newydd yn Hendy-gwyn ar Daf neu Sanclêr neu'r cyffiniau:**

**Eitem 1. Beth yw'r amserlen ar gyfer dechrau'r gwaith ar hyn o bryd?**
Nid oes gennym y wybodaeth hon, ond mae rhywfaint o'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani eisoes yn gyhoeddus.

**Eitem 2. Pryd y trafodwyd y cynnig i adeiladu ysbyty yn yr ardal hon gyntaf – Mis/Blwyddyn?**
Nid oes gennym y wybodaeth hon, ond mae rhywfaint o'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani eisoes yn gyhoeddus.

**Eitem 3. Beth fydd cost pob llain o dir i'r trethdalwr?**
Ni chedwir y wybodaeth hon.

**Eitem 4. A yw'r un o'r lleiniau yn dir fferm amaethyddol, yn goedwigaeth neu'n dir gwyllt (byddai cyfeirnodau grid 4 rhif yn ddefnyddiol)?**
Nid oes gennym y wybodaeth hon, ond mae rhywfaint o'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani eisoes yn gyhoeddus.

**Eitem 5. A oes gan unrhyw aelod o Lywodraeth Cymru yn y gorffennol neu'r presennol berchnogaeth neu ddiddordeb yn un o'r plotiau?**
Ni chedwir y wybodaeth hon.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe bawn yn sôn bod gwybodaeth am ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynglŷn â'r weledigaeth ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cyfeirio'n gyntaf at ysbyty newydd ac yn darparu'r amserlen a bennwyd, ar gael ar ei wefan yn https://biphdd.gig.cymru/amdanom-ni/canolbarth-a-gorllewin-iachach/. Mae gwybodaeth ynghylch a yw'r tir yn dir amaethyddol a phwy sy'n berchen ar y tir ar hyn o bryd ar gael yn y ddogfen ymgynghori ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sydd ar gael yn https://biphdd.gig.cymru/amdanom-ni/canolbarth-a-gorllewin-iachach/safle-ysbyty-newydd/ymgynghoriad-safle-ysbyty-newydd/.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth